Polisi Llawysgrifen

Amcan

- Ein nod yw datblygu llawysgrifen glir dealladwy a thaclus drwy'r ysgol, a fod darnau ysgrifenedig y plant yn edrych yn ddeniadol i'r llygad.
- Gobeithiwn ddysgu'r plant i gyflwyno gwaith graenus y gallant fod yn falch ohono.
- Bydd y cynllun llawysgrifen yn cael ei gyflwyno yn y dosbarth Meithrin ac yn parhau drwy'r ysgol gyfan.
- Teimlwn fel staff ei fod yn bwysig i roi amser i ddysgu ac ymarfer llawygrifen ac o ganlyniad hyrwyddo'r ddawn o ysgrifennu'n rhwydd, yn glir ac yn ddarllenadwy.
- Sicrhawn hefyd fod llawysgrifen yn rhan annatod o'r broses ysgrifennu.
- Penderfynwyd fel ysgol i fabwysiadu ffont pendant o ysgrifen glwm, ac i sicrhau arddull gyson drwy'r ysgol. (Gweler atodiad 1 – ffurfio llythrennau).
- Cyflwynir ysgrifen glwm ym Mlynyddoedd 2 a 3.
- Defnyddir pensil i ysgrifennu yn y Cyfnod Sylfaen a phen a phensil yng Nghyfnod Allweddol 2 – os yw'r disgybl yn hyderus a'r lawysgrifen yn ddealladwy – h.y. Ym Mlwyddyn 4, yn dilyn gwyliau'r Nadolig, os yw'r disgybl yn gallu cynhyrchu ysgrifen glwm yna caiff ddefnyddio pen.
  Bydd pob disgybl Blwyddyn 4 yn defnyddio pen yn Nhymor yr Haf.

Disgwyliadau

Meithrin a Derbyn - Defnyddio'r amrywiol adnoddau ac ysgrifennu yn defnyddio pensiliau 'Stabilo Easygraph'. Sesiwn llawysgrifen Read, Write, Inc.

Blwyddyn 1 a 2 - Gwneud defnydd o lyfrau llawysgrifen a phensiliau 'Stabilo Easygraph'. Dilyn Cynllun Llawysgrifen Berol. Ymarferiadau Read, Write, Inc yn wythnosol.

Blwyddyn 1 – Tudalen 11 a 12
Blwyddyn 2 – Tudalen 12 a 13.

Blwyddyn 3 - Gwneud defnydd o bensiliau 'Stabilo Easygraph'. Targedu llawysgrifen mewn grwpiau bychan.

Blwyddyn 4 - Tymor 1 defnyddio pensiliau 'Stabilo Easygraph'.
Tymor 2 a 3 defnyddio pinau ysgrifennu llawysgrifen 'Manuscript' pan wedi meistrioli cynllun Berol.

Blwyddyn 5 a 6 - Defnyddio pinau ysgrifennu llawysgrifen 'Manuscript' yn gyson.

TGCh - Defnyddi'r print Comic Scans a Sassoon primary Infant yn gyson i fodelu ar y waliau/arddangosfeydd

Dulliau Dysgu

1. Yn y Blynyddoedd Cynnar cyflwynir y plant i sgiliau ysgrifennu trwy amrywiaeth o weithgareddau e.e. trasio, copio patrymau, dilyn llwybrau, peintio, patrymau mewn tywod.

2. Pan fydd y plant yn hyderus ac wedi meistrioli'r sgiliau cyn ysgrifennu yn eithaf da, dysgir hwy i ffurfio llythrennau yn gywir.

3. Rhaid sicrhau fod y plant yn eistedd yn gywir.

4. Dysgir y plant i ddal offer ysgrifennu yn gywir. Os fydd plant yn cael trafferthion, rhoddir 'gripers' ar y pensiliau i'w cynorthwyo yn y Cyfnod Sylfaen neu ar adegau i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Nghyfnod Allweddol 2.

5. Rhoddir pwyslais ar ddysgu dechrau a diweddu llythrennau yn y man cywir.

6. Wrth gyflwyno ysgrifen glwm yng Nghyfnod Allweddol 2, bydd y disgyblion yn cychwyn drwy ymarfer a dilyn yr arddull a gytunwyd arno (Gweler yr Atodiadau).

Arwyddwyd gan y Cadeiryddes ar ran y llywodraethwyr: _____

Dyddiad cymeradwyo gan y Bwrdd Llywodraethol: _____

Dyddiad Adolygu: _____